IS-DDEDDFWRIAETH

# 2020 (LLC20-38)

# DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

## Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

### Addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys am y cyfnod penodedig.

(2) Mae adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(**2**) (diffiniad o ddisgybl etc.) wedi ei haddasu o ran ei chymhwyso fel nad yw person, at ddibenion Deddf Addysg 1996, i'w drin fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru dim ond am fod unrhyw addysg yn cael ei darparu i'r person hwnnw yn yr ysgol ar sail dros dro, am resymau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws.

(3) Nid yw'r addasiad yn is-baragraff (2) yn cael effaith ond at ddibenion adran 434 o Ddeddf Addysg 1996 (cofrestru disgyblion) a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**3**).

### Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad

**2.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y mae ysgolion wedi parhau i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws.

(3) Mae ysgolion bellach yn cynllunio i gynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin er mwyn galluogi dysgwyr i ailgydio, dal i fyny a pharatoi at yr haf a

(**1**) 2020 p. 7.
(**2**) 1996 p. 56.
(**3**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).

dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. Bydd nifer y dysgwyr mewn ysgolion yn gyfyngedig ac mae'n bosibl y bydd rhai plant yn mynychu ysgol ac eithrio'r ysgol y maent wedi eu cofrestru ynddi.

(4) Mae anfanteision posibl i ddisgyblion ysgolion sy'n cael plant dros dro os yw'r plant hynny yn dod yn ddisgyblion cofrestredig. Mae'r anfanteision hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ddosbarthiadau mawr ac annhegwch i blant eraill a fyddai'n cael blaenoriaeth ar gyfer cael eu derbyn.

(5) Bydd yr addasiad a wneir gan baragraff 1(2) o'r hysbysiad hwn yn atal canlyniadau nas bwriadwyd sy'n codi wrth i ddisgyblion cofrestredig un ysgol fynychu ysgol arall dros dro.

(6) Mae'r cyfyngiad i'r addasiad hwn gan baragraff 1(3) yn cadw dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n bodoli o ran 'disgyblion' y mae angen iddynt barhau.

**Cyfnod penodedig**

**3.** Yn yr hysbysiad hwn, ystyr "cyfnod penodedig" yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 29 Mehefin 2020.

*Llofnodwyd gan Kirsty Williams*

*Y Gwenidog Addysg, un o Weinidogion Cymru*

*12:45 p.m. ar 25 Mehefin 2020*